

**LLAW** | Llwybr Addysg Wledig



[www.aber.ac.uk/cy/hec/carer](http://www.aber.ac.uk/cy/hec/carer)

Beth yw Llwybr Addysg Gymunedol a Gwledig (LLAW)?

Lleoliad blwyddyn o hyd ym Mlwyddyn 3 mewn cymuned wledig neu dref fach, lle bydd mwy o amser i adnabod eich cleifion a'ch cydweithwyr ac i ddeall eu hanghenion yw rhaglen LLAW.

Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr LLAW yn gweithio o amgylch tref brifysgol **Aberystwyth**, yn y Canolbarth.

Yn ystod y lleoliad blwyddyn o hyd hwn (a elwir yn 'Gleryddiaeth Integredig Hydredol neu 'LIC') byddwch yn gweithio tuag at yr un nodau ac amcanion dysgu a'ch cyfoedion ar lwybr C21, o dan oruchwyliaeth tim o arbenigwyr ymroddedig.

Mae sefydliadau addysgol o bob cwr o'r byd wedi bod yn cynnal rhaglenni LIC tebyg i'n llwybr LLAW ers dros 15 mlynedd.

Mae tystiolaeth gynyddol o'u heffeithiolrwydd wrth eich paratoi ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol, pa faes bynnag o feddygaeth y byddwch yn dewis canolbwyntio arno yn y pen draw.

**Mae gennych gyfle i fod yn rhan o raglen LLAW**

Mae ymgynghori ochr yn ochr, gweld cleifion yn annibynnol ac yna adrodd yn ôl i glinigwyr, yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn modd amlwg ac mae hyn yn datblygu ac yn atgyfnerthu meddwl diagnostig yn gyflymach ac yn ehangach.

Byddwch yn elwa drwy weithio mewn timau meddygol profiadol ac effeithiol.

*"Cyfle gwych i ddarganfod rhannau eraill o Gymru ac ymgolli yn y diwylliant a'r gymuned ac rwy'n falch iawn fy mod wedi dilyn y llwybr hwn. Helpodd i fagu fy hyder yn fy ngalluoedd clinigol."*  
Linnet Mensuoh - Myfyriwr CARER



Manteision y rhaglen

Gweld beth mae ein myfyrwyr yn ei ddweud  
[blogs.cardiff.ac.uk/carer](https://blogs.cardiff.ac.uk/carer)

Byddwch yn caffael dealltwriaeth fanwl o sut i roi'r claf yn gyntaf, pwysigrwydd persbectif bywyd, deinameg y teulu a'r cyd-destun cymdeithasol ynghlwm â'r ffordd y mae'r claf yn cyflwyno. Byddwch yn datblygu sgiliau cyfathrebu ardderchog ac yn dangos dealltwriaeth fanwl o gyfraniadau seicogymdeithasol ym maes meddygaeth. Mae'r myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r rhaglen hon yn nodi hefyd eu bod wedi meithrin eu sgiliau clinigol a gwybyddol ar lefel uwch.

- **Dysgu mewn grwpiau bach** gyda'r un goruchwyliwr addysgol am flwyddyn gyfan
- **Profiad parhaus**, dim angen symud o le i le bob ryw ychydig wythnosau
- **Profi bywyd mewn ardal led-wledig** fel aelod o'r gymuned ac fel darparwr gofal iechyd
- Cyfle i feithrin perthynas weithio gyda chleifion, cyd-fyfyrwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Aberystwyth

**Eich Pennod Nesaf**

Lleoliad trawiadol ar lan y môr yn y Canolbarth lleoliad trawiadol ar lan y môr yn y Canolbarth.

Cewch fwynhau byw mewn amgylchedd tawel a phrydferth rhwng y mynyddoedd a'r môr, ac mewn tref sydd yng nghanol bwrlwm prysur ac amrywiol y myfyrwyr.

Mae Aberystwyth yn dref brifysgol fywiog sy'n ail gartref i 9,000 o fyfyrwyr.



Diddordeb?

Cysylltwch â ni

Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael ar y rhaglen unigryw hon ac mae'n addas ar gyfer myfyrwyr o'r DU a thu hwnt.

Bydd tîm LLAW yn trefnu cyfarfodydd ac efallai ymweliad â Bangor/ Aberystwyth ymlaen llaw er mwyn i chi ddod i adnabod eich gilydd a'r amgylchedd lleol.



Rhesymau dros ddewis Aberystwyth fel eich lleoliad  
[www.aber.ac.uk/cy/about-us/about/](http://www.aber.ac.uk/cy/about-us/about/)

Os oes gennych gwestiynau neu os hoffech gofrestru eich diddordeb, ebostiwch:



[cmestaff@aber.ac.uk](mailto:cmestaff@aber.ac.uk)  
[ugmedicyr2@caerdydd.ac.uk](mailto:ugmedicyr2@caerdydd.ac.uk)